MOSGITO

# Amodau a Rheolau Tŷ Mosgito

Mae gwefan Mosgito yn gartref i dy gynnwys di.

Mae'r amodau a rheolau sydd yma wedi eu llunio er mwyn dy ddiogelu di ar y we ac er mwyn rhoi caniatâd i'r BBC ddangos dy gynnwys di ar Mosgito. Efallai hefyd y bydd dy gynnwys di'n cael ei ddangos ar raglen deledu Mosgito ar S4C hefyd.

Mae'n bwysig dy fod ti'n deall y rheolau yma ac yn gwneud yn siŵr fod unrhyw gynnwys yr wyt yn ei wneud ar gyfer Mosgito yn eu dilyn.

## 1. Cadwa dy fanylion personol yn ddirgel

Wrth greu dy gynnwys, paid byth a dangos na dweud beth yw dy gyfenw di na neb arall yn y cynnwys, enw dy ysgol, dangos dy wisg ysgol, enwi clwb chwaraeon, cyfeiriadau, rhifau ffôn neu fanylion llefydd ti'n hoffi mynd gyda ffrindiau.

Er enghraifft, mae'n iawn dweud dy fod yn dod o Wrecsam gan ei fod yn ddinas fawr, ond os wyt ti'n byw mewn pentref bach, gyda dim ond ychydig o gannoedd o bobl, yna paid â dweud beth yw dy enw.

Bydd unrhyw gynnwys sydd yn ei gwneud hi'n hawdd i dy adnabod di neu dy ffrindiau yn gorfod cael ei wrthod.

## 2. Gwna'n siŵr fod dy gynnwys yn addas ar gyfer Mosgito

Mae Mosgito yn safle i blant oed 10-15, felly gwna'n siŵr fod dy gynnwys yn addas ar gyfer cynulleidfa 'fengach hefyd! Os oes angen i ti sôn am ffilmiau, gemau neu raglenni teledu, dylai'r rhain fod yn rhai sy'n addas i blant a phobl ifanc o dan 15 a ni ddylai'r rhaglenni fod yn rhai sy'n cael eu dangos ar y teledu ar ôl 9pm.

Er enghraifft, os wyt ti eisiau sôn am Eastenders neu Rownd a Rownd, mae hynny'n iawn. Ond tydi sôn am ffilm arswydus iawn oedd ar y teledu wedi 9pm neu rywbeth oedd ar gyfer pobl dros 15 oed ddim yn iawn!

Bydd unrhyw gynnwys sy'n cynnwys deunydd anaddas yn gorfod cael ei wrthod.

## Amodau a Rheolau Tŷ Mosgito

### 3. Hyd a maint dy gynnwys

Bydd gofyn i unrhyw gynnwys sy'n cael ei gyflwyno i wefan Mosgito fod ddim hirach na 2 funud o hyd a dim mwy na 10 Megabeit o faint.

Os yw dy gynnwys di'n fwy na 2 funud, fydd dy gynnwys di ddim yn cael ei gyhoeddi ar safle Mosgito.

Os yw dy gynnwys di'n fwy na 10 Megabeit, ni fydd llwythwr (uploader) Mosgito yn ei dderbyn.

Mae llwythwr Mosgito yn medru derbyn y ffeiliau canlynol:

.3g2
.3gp
.asf
.avi
.dv
.flv
.wmv
.mov
.rm
.jpg

Os wyt ti'n cael unrhyw broblemau technegol wrth lwytho dy gynnwys, yna cysyllta gyda thîm Mosgito.

mosgito@bbc.co.uk

### 4. Caniatâd rhiant/gwarchodwr

Bydd tîm Mosgito yn cysylltu gydag un o dy rieni neu warchodwr er mwyn gwneud yn si^wr eu bod yn fodlon i dy gynnwys gael ei gyhoeddi ar safle we Mosgito. Mae'n bwysig felly dy fod ti'n rhoi'r manylion cyswllt cywir wrth i ti lwytho dy gynnwys ar y wefan.

Mae tîm Mosgito yn gwneud hyn er mwyn sicrhau fod dy rieni/warchodwr yn hapus i ti ymddangos ar un o wefannau'r BBC. Ni fydd tîm Mosgito byth yn cyhoeddi cynnwys sydd heb gael caniatâd rhiant neu warchodwr.

MOSGITO

## Amodau a Rheolau Tŷ Mosgito

### 5. Pobl eraill yn dy gynnwys di

Os wyt ti'n gofyn i bobl arall fod yn dy gynnwys, gwna'n siŵr eu bod nhw'n hapus i ymddangos yn y cynnwys a'u bod yn gwybod y gallai'r cynnwys gael ei gyhoeddi ar wefan Mosgito.

Cofia ofyn caniatâd gan bobl eraill bob tro wyt ti eisiau creu dy gynnwys cyn i ti eu ffilmio nhw neu dynnu llun ohonynt. Mae'n ddigon posib na fydden nhw eisiau ymddangos yn y cynnwys, ac y bydden nhw'n gwrthwynebu.

Mae'n bwysig dy fod ti'n cael manylion rhiant/warchodwr ar gyfer pawb sy'n ymddangos yn dy gynnwys wrth i ti lwytho'r cynnwys gan y bydd yn rhaid i dîm Mosgito wneud yn siŵr fod rhieni/gwarchodwr pawb yn hapus i'w plant ymddangos ar un o wefannau'r BBC.

### 6. Dy waith dy hun

Dim ond cynnwys gwreiddiol sydd wedi cael ei greu'n arbennig ar gyfer gwefan Mosgito ddylai gael ei lwytho i'r wefan.

Ni ddylet ti byth ddefnyddio gwaith rhywun arall a dweud mai dy waith dy hun ydi o. Hefyd, paid a chopïo gwaith rhywun arall, os ydyn nhw'n dod o hyd i dy gynnwys ac yn gweld eu stori nhw, gallen nhw fod yn flin iawn!

Trïa beidio defnyddio lluniau o selebs neu unrhyw glipiau oddi ar y teledu, oherwydd does gen ti ddim hawl i ddefnyddio'r rhain yn dy gynnwys.

Er enghraifft, os fyddet ti'n defnyddio golygfa o 'Pirates of the Caribbean' yn dy gynnwys neu'n chwarae fideo diweddaraf Justin Timberlake ar y teledu yn y cefndir, fyddai'n rhaid i ni wrthod y cynnwys yma oherwydd does gen ti ddim caniatâd gan y stiwdio na JT i wneud hyn!

## Amodau a Rheolau Tŷ Mosgito

**7. Cerddoriaeth a dy gynnwys**

Mae'n hawdd cael dy demtio i ddefnyddio dy hoff gân o'r siartiau neu fiwsig rhywun arall yn dy gynnwys, ond yn anffodus fedri di ddim gwneud hyn.

Mae'n rhaid i unrhyw gerddoriaeth yn dy gynnwys fod yn waith wyt ti wedi ei gyfansoddi dy hun. Dydy hynny ddim yn golygu y bydd yn rhaid i ti sgrifennu rhywbeth i gerddorfa; falle dy fod di'n wych yn 'beat-boxio' neu'n gallu gneud llwyth o synau anifeiliaid gwahanol! Wrth gwrs, does dim rhaid i ti gael cerddoriaeth yn dy gynnwys, falle dy fod di am wneud ffilm fud!

**8. Fydd dy gynnwys di ddim yn cael ei ddangos ar wefan Mosgito os…**

Os na ydy dy gynnwys di yn ymddangos ar wefan Mosgito; gall fod yna sawl rheswm am hyn:

(i) Nid yw dy gynnwys yn addas gan ei fod wedi torri rheolau'r t^y, os yw hyn yn digwydd yna fe gei di neges yn egluro pam ei fod wedi ei wrthod.

(ii) Mae dy gynnwys yn dal i gael ei wylio gan dîm safoni Mosgito.

(iii) Mae tîm safoni Mosgito yn cael trafferth cysylltu â dy riant/gwarchodwr.

Os nad ydy dy gynnwys yn ymddangos ar wefan Mosgito ar ôl saith diwrnod ac nad wyt ti'n credu dy fod wedi torri unrhyw un o'r rheolau t^y, yna cysyllta gyda thîm Mosgito.

mosgito@bbc.co.uk

## Amodau a Rheolau Tŷ Mosgito

**9. Mae dy gynnwys wedi ei dynnu oddi ar wefan Mosgito**

Mae gan y BBC hawl i beidio defnyddio, neu ddileu unrhyw gynnwys neu gyfrif ar unrhyw adeg am unrhyw reswm.

**11. Diogelwch**

Plîs paid â pheryglu dy hun nac unrhyw un arall, mentro gwneud unrhyw beth di- angen neu dorri'r gyfraith wrth wneud dy gynnwys.

**12. Stwff cyfreithiol**

Os wyt ti'n anfon cynnwys i dîm Mosgito yna rwyt ti'n cytuno i ddilyn y rheolau tŷ uchod ac yn rhoi caniatâd i'r BBC i ddangos dy gynnwys ar wefan Mosgito neu rhaglen deledu Mosgito ar S4C. Ond paid â phoeni, ti fydd dal yn berchen ar dy gynnwys ac fe gei di barhau i'w ddefnyddio a'i ddangos i eraill.